# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2024

Amser: 09.00 - 09.26

# Remote / Private

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Cyfnod 3 y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (~~180~~ 120 munud)

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn trafodion Cyfnod 3.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.30pm

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd toriad o 10 munud yn cael ei gymryd rhwng y Cyfnod Pleidleisio a thrafodion Cyfnod 3.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl y ddadl fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes nad oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2024 -**

- <u>Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.17(iii) mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (5 munud)</u> – *fel y cytunwyd isod*

**Dydd Mercher 18 Medi 2024 –**

- <u>Ddadl ar Ddeiseb P-06-1455 Amddiffyn adrannau iau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru rhag cael eu cau (30 munud)</u> – *fel y cytunwyd isod*

**Dydd Mercher 25 Medi 2024 –**

- <u>Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24 (60 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)</u>
- <u>Dadl fer (30 munud)</u>

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch amserlen Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Nododd y Pwyllgor Busnes yr ymateb gan y Pwyllgor a chytunodd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

## 4.2 Amserlen ddiwygiedig ar gyfer Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

Trafododd y Pwyllgor Busnes amserlen ddiwygiedig a gyflwynwyd gan y Trefnydd a:

- chytuno ar y terfyn amser diwygiedig ar gyfer Cyfnod 2, sef 4 Hydref 2024;
- nodi y cytunwyd mewn egwyddor yn flaenorol i gyflwyno cynnig bod trafodion Cyfnod 2 yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor o'r Senedd Gyfan;
- cytuno i roi effaith i'r penderfyniad hwnnw drwy gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 26.17(iii) i'w drafod ar 17 Gorffennaf 2024, yn amodol ar yr egwyddorion cyffredinol yn cael eu cytuno ar 16 Gorffennaf; a
- chytuno y cynhelir trafodion Cyfnod 2 ar ôl y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2024.
- yn ddarostyngedig i'r uchod, cytuno i ddyrannu slot cyfarfod i Bwyllgor o'r Senedd Gyfan at ddibenion trafodion Cyfnod 2 ar ôl y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2024.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

### 5.1 Llythyr gan y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch amserlen Cyllideb Ddrafft 2025-26

Trafododd y Pwyllgor Busnes amserlen y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 ac, yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, cytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid er mwyn ymgynghori â'r pwyllgor ar yr amserlen arfaethedig.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn gwneud cais am slot ar gyfer dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cais a chytunodd i drefnu dadl ar ddeiseb *P-06-1455 Amddiffyn adrannau iau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru rhag cael eu cau* ar 18 Medi 2024.

### 6.2 Ystyried yr ymatebion a gafwyd gan bwyllgorau ynghylch eu cylchoedd gwaith

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr ymatebion a'r awgrymiadau a ddaeth i law gan y pwyllgorau, a chytunwyd â'r awgrym y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am graffu ar borthladdoedd rhydd a'r economi gylchol o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) i Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA).

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i gynnig bod cadeiryddion y pwyllgorau hyn, a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (LGH) yn trafod yn anffurfiol ffyrdd y gallent gydgysylltu ymhellach y gwaith craffu gweinidogol rhwng eu pwyllgorau, ac yn arbennig yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb.

# 7 Amserlen y Senedd

## 7.1 Dyddiadau Toriadau

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad hanner tymor y gwanwyn a thoriad y Pasg 2025, a chytunwyd ar y dyddiadau dros dro ar gyfer hanner tymor y Sulgwyn a'r Haf 2025, fel y nodir isod:

| **Toriad** | **Dyddiadau** |
|---|---|
| Toriad yr Haf 2024 | Dydd Llun 22 Gorffennaf 2024 – Dydd Sul 15 Medi 2024 |
| Hanner Tymor yr Hydref 2024 | Dydd Llun 28 Hydref 2024 – Dydd Sul 3 Tachwedd 2024 |
| Toriad y Nadolig 2024 | Dydd Llun 16 Rhagfyr 2024 – Dydd Sul 5 Ionawr 2025 |
| Hanner Tymor y Gwanwyn 2025 | Dydd Llun 24 Chwefror 2025 – Dydd Sul 2 Mawrth 2025 |
| Toriad y Pasg 2025 | Dydd Llun 7 Ebrill 2025 – Dydd Sul 27 Ebrill 2025 |
| **Hanner Tymor y Sulgwyn 2025* | *Dydd Llun 26 Mai 2025 – Dydd Sul 1 Mehefin 2025* |
| **Toriad yr Haf 2025* | *Dydd Llun 21 Gorffennaf 2025 – Dydd Sul 14 Medi 2025* |

*** Dyddiadau dros dro i'w cadarnhau gan y Pwyllgor Busnes.**

# 8 Trefniadau Cyflwyno

## 8.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad yr Haf

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn yn ystod toriad yr haf a chytunodd hefyd ar y trefniadau arferol ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig.